

Mr Jonathan Griffiths
Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Thai
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlfordd
SA61 1TP

Dyddiad: 03 Awst 2020

Annwyl Jonathan Griffiths,

Adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Berfformiad Awdurdodau Lleol Ebrill 2019 – Mawrth 2020

Mae'r cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019, yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion
- amlinellu ein blaenraglen waith

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Sir Penfro wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol o ran gwasanaethau cymdeithasol rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.

Rydym yn cydnabod nad oedd modd i ni gwblhau'r cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol o ganlyniad i'r amgylchiadau digynsail sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Fodd bynnag, credwn fod buddion sylweddol o hyd o ran nodi a thynnu sylw'r awdurdod lleol a'i bartneriaid at y meysydd o cryfderau ac gwelliannau sy'n ofynnol. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaol.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
✉ ciw@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Welsh Government Office
Sarn Mynach
Llandudno Junction
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'n dilyn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r ffordd rydym yn cefnogi gwelliant; dull sy'n gynyddol gydweithredol ac yn seiliedig ar gryfderau.

Caiff cynnwys y llythyr hwn ei lywio gan y gweithgarwch gwerthuso perfformiad a gynhaliwyd gan yr arolygiaeth yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi cynnwys:

- cyfarfodydd ymarfer a pherfformiad (gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion), 20 Awst 2019
- gweithgarwch â phwyslais penodol, 4 a 5 Medi 2019
- cyfarfod hunanwerthuso (gwaith atal a hybu annibyniaeth i oedolion hŷn) 31 Hydref 2019
- cyfarfod adolygu risg a sicrwydd, 20 Ionawr 2020
- cyfarfodydd ymarfer a pherfformiad (gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion), 13 Chwefror 2020

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod yn cynnal trafodaethau â chi wrth i'r holl weithgarwch a restrir uchod fynd rhagddo, ac felly mae cynnwys ein llythyr perfformiad blynyddol yn adlewyrchiad cywir o'n canfyddiadau parhaus a rennir â chi yn gyson.

Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion Deddf 2014

Llesiant

Roedd gweithgarwch â phwyslais penodol Cyngor Sir Penfro yn canolbwyntio ar bobl hŷn (dros 65 oed) a oedd wedi aros gartref o ganlyniad i ymyrraeth gan wasanaethau integredig ac a oedd â chynllun gofal a chymorth. At ei gilydd, gwelsom fod hybu annibyniaeth a chanlyniadau personol yn cael eu hystyried wrth gynllunio a darparu gwasanaethau yn Sir Benfro. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y gwasanaeth yn defnyddio model yn seiliedig ar gryfderau ac amrywiaeth o wasanaethau wrth sicrhau llesiant pobl a chyflawni canlyniadau unigol. Gwelsom fod y broses o adolygu anghenion pobl yn anghyson ac nad oedd cynlluniau gofal a chymorth pobl yn cael eu hadolygu'n amserol. Golyga hyn, i rai pobl sydd ag anghenion newidiol, y gellid rhoi gormod o gymorth iddynt neu beidio â mynd i'r afael a'u hanghenion cynyddol.

Mae canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblheir o fewn 7 diwrnod yn un o'r ffyrdd allweddol o ddangos perfformiad diogelu; ar adeg hunanwerthusiad AGC i bobl hŷn a gwblhawyd ar ddechrau 2019 roedd hyn yn 66% i'r awdurdod lleol. Erbyn mis Hydref 2019, roedd wedi cynyddu i 87%.

Pobl

Mae Cyngor Sir Penfro wedi bod yn canolbwyntio ar iechyd a llesiant staff, gan ddefnyddio nifer o ddulliau anffurfiol, fel ciniawau a phosteri yn cyfeirio at gymorth iechyd meddwl. Mae hon yn strategaeth gadarnhaol sy'n seiliedig yn rhannol ar adborth Swyddfa Archwilio Cymru ac arolwg staff. Nododd gweithgarwch â phwyslais penodol AGC fod staff yn gadarnhaol ynghylch cefnogaeth y rheolwyr a'r uwch-reolwyr, y gefnogaeth yn y timau, ac o fewn y gwahanol ddisgyblaethau.

Mae heriau wrth gynnal y gweithlu yn yr awdurdod lleol. Ceir prinder uwch-reolwyr o ran gwasanaethau plant ar hyn o bryd, a gyda phennaeth gwasanaeth newydd, swyddi gwag ac anawsterau recriwtio, mae hwn yn gyfnod arbennig o anodd. Mewn gwasanaethau oedolion, gwelsom fod y gallu i adolygu cynlluniau gofal a chymorth yn her. Mae'n gadarnhaol gweld bod uwch-reolwyr wedi cymeradwyo adnoddau ychwanegol i wella'r broses adolygu ers hynny. Bydd AGC yn awyddus i adolygu sut y bydd y cymorth ychwanegol hwn yn gwella'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn ystod 2020-2021.

Nid yw'r awdurdod lleol wedi gorfod defnyddio staff gwaith cymdeithasol asiantaeth ryw lawer sydd wedi bod yn gadarnhaol o ran cysondeb y grŵp o staff. Fodd bynnag, yn ystod y misoedd diwethaf, mae recriwtio wedi bod yn broblem mewn gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion, ac mae staff asiantaeth wedi cael eu defnyddio. Mae hyn yn broblem i lawer o awdurdodau lleol yng Nghymru, ac mae'n amlwg yn faes y mae'r awdurdod lleol wedi nodi y bydd angen ei fonitro o ran ansawdd y staff a'r goblygiadau o ran cost. Mae'r awdurdod lleol yn uchelgeisiol o ran datblygu gwasanaethau newydd – mae wedi llenwi tair swydd newydd i ddatblygu gwasanaethau; arwain ar lety, gofal cartref a chartrefi gofal i bobl hŷn. Fodd bynnag, mae recriwtio mewnol wedi bod yn heriol wrth ôl-lenwi swyddi rheng flaen. Mae gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) wedi llenwi swyddi gwaith cymdeithasol ledled y rhanbarth, ond wrth wneud hyn maent wedi penodi pedwar aelod o staff yr awdurdod lleol. Mae'r penodiadau yn gadarnhaol. Fodd bynnag, mae pennaeth newydd gwasanaethau plant yn bwriadu deall yn well sut y bydd y swyddi hyn yn gweithio mewn gwasanaethau eraill sydd wedi'u comisiynu i weithio gydag anghenion emosiynol ac anghenion iechyd meddwl.

Mae llenwi swyddi gofal cartref yng ngogledd y sir yn her barhaus oherwydd ei bod yn ardal wledig sy'n effeithio ar ddarparu gofal. Roedd yr amser aros ar gyfartaledd ar gyfer pecyn gofal cartref ar adeg yr hunanwerthusiad yn fwy na mis o hyd – roedd hyn wedi lleihau i 25 diwrnod erbyn mis Hydref 2019.

Yn ystod y gweithgarwch â phwyslais penodol, gwelsom fod pobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a ddarparwyd iddynt. Roedd rhai pobl yn rhwystredig am nad oedd gwybodaeth yn cael ei darparu ar adegau pwysig, ac am fod oedi wrth gael y cymorth cywir. Wrth siarad â gofalywyr, cawsom ymatebion amrywiol mewn perthynas â nodi a diwallu eu hanghenion yn llawn.

Mae'r gwaith o weithredu cynllun 'Mwy na Geiriau' gan yr awdurdod lleol yn sicrhau bod ei Gynnig Rhagweithiol yn diwallu anghenion Cymraeg cwsmeriaid. Mae grŵp corfforaethol safonau'r Gymraeg yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r safonau hyn. Mae'r awdurdod lleol yn cynnig gwasanaeth yn Gymraeg i ofalwyr maeth os bydd ei angen arnynt. Mae'r datganiad o ddiben ar gyfer maethu hefyd yn cynnwys cyfeiriad at y Cynnig Rhagweithiol a'r gofynion.

Rydym yn parhau i fonitro gweithrediad Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid sydd wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn yr un modd a llawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o ryddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn cyhoeddi ein cyd-adroddiad cenedlaethol ar y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid maes o law.

Yn 2019, cyflwynodd yr awdurdod lleol swydd rheolwr arweiniol ar radd rheolwr tîm cynorthwyol a thair swydd Asesydd Budd Pennaf, a Gweithwyr Iechyd Meddwl Proffesiynol

Cymeradwy cymwysedig. Mae'n gadarnhaol nodi bod pob rheolwr tîm wedi cwblhau hyfforddiant ar awdurdodi. Felly, eir i'r afael ag ôl-groniad yr awdurdod lleol ar hyn o bryd, ond mae hyn yn parhau i amrywio.

Atal

Mae Cyngor Sir Penfro wedi buddsoddi'n sylweddol mewn gwasanaethau atal a gwella a chefnogi'r sector a modelau amgen. Dylai'r gwariant hwn ar wasanaethau atal arwain at lai o alw yn y tymor hwy. Mae enghreifftiau nodedig o hunanwerthusiad yr awdurdod lleol yn cynnwys datblygu dull catalydd cymunedol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu mentrau micro, a fydd yn rhoi mwy o ddewis a hyblygrwydd i ddefnyddwyr Taliad Uniongyrchol. Mae Cysylltwyr Cymunedol wedi bod yn helpu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y gymuned i ddatblygu. Mae gweithio arloesol mewn partneriaeth yn amlwg yn yr awdurdod lleol; er enghraifft, mae swydd cysylltydd cymunedol rhanbarthol yn cael ei datblygu, a gynhelir gan lechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn dilyn trywydd strategol.

Mae'r awdurdod lleol yn cynnal gweithgarwch sylweddol i gynnwys dinasyddion mewn penderfyniadau allweddol ynglŷn â darparu gwasanaethau, sydd i'w weld yn amlwg drwy weithdai, cynadleddau (fel cynhadledd pontio'r cenedlaethau) a digwyddiadau ymgynghori. Mae Eiriolwyr Anableddau Dysgu wedi bod yn rhan o gyfweiliadau ac wedi mynychu nifer o gynadleddau.

Yn ystod 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Mae'r [adroddiad](#) ar gael ar ein gwefan. Mae'r canfyddiadau allweddol yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, ymarfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn parhau i gael eu hystyried gan Grŵp Cyngori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal, ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at fynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn.

Ym mis Rhagfyr 2019, gwnaethom ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn gofyn am wybodaeth am adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn sgil ei ymchwiliad i blant sydd wedi cael profiad o ofal, yn benodol argymhelliad 5 sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ac amllder adolygiadau diwedd lleoliad.

Yn yr awdurdod lleol, cynhelir yr adolygiad ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn gynnar ar ôl i leoliad chwalu, a byddai'r rhain fel arfer yn cael eu cynnal o fewn ugain diwrnod. Gwnaethom nodi, fel rhan o'r adolygiad o'r gwasanaeth cyn arolygiad AGC y llynedd ar gyfer gwasanaeth lleoliadau teuluoedd yr awdurdod lleol, fod angen bod yn fwy cyson wrth gynnal cyfarfodydd tarfu. Mae pennaeth y gwasanaeth yn cydnabod ei bod yn well i bobl ifanc pan gaiff diwedd lleoliad ei reoli, ond hefyd ei fod yn gyfle i wella safonau gofaluwr maeth.

Partneriaethau

Mae Cyngor Sir Penfro wedi arwain nifer o raglenni gwaith rhanbarthol fel datblygu eiriolaeth broffesiynol annibynnol a chomisiynu datblygiad y gweithlu.

Gwnaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion gymryd cyfrifoldeb ychwanegol am dai yn 2019. Mae hyn wedi bod yn newid strategol sylweddol ac mae pennaeth y gwasanaeth wedi nodi'r angen i ddiwygio strwythurau rheoli llinell.

Mae newidiadau sylweddol i ofal cartref wedi cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan ddatblygu gwasanaeth mewnol ac ymgorffori pobl sy'n dychwelyd i weithio i'r awdurdod lleol. Lansiodd gwasanaeth ailalluogi newydd yn 2019 hefyd fel gwasanaeth mewnol wedi'i arwain gan therapiwteg. Mae hyn wedi bod yn newid sylweddol i'r gwasanaeth a ddarparwyd yn flaenorol gan y darparwr gwasanaeth cofrestredig.

Yn ystod y gweithgarwch â phwyslais penodol, gwnaeth y staff fynegi rhai pryderon am gyfathrebu rhwng ieuchyd a gofal cymdeithasol. Er enghraifft, tynnwyd sylw at gyfathrebu ar draws gofal cymdeithasol a staff ar wardiau ysbytai, a'r broses gymhleth o atgyfeirio neu ailatgyfeirio pobl at Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol.

Mae asesiadau person cysylltiedig yn dal i roi pwysau ar adnoddau, ac mae hyn yn parhau i effeithio ar waith asesu gofalwyr prif ffrwd. Mae yna swyddi gwag yn y Tîm Lleoliadau Teuluoedd hefyd, sy'n gwaethygu'r her llwyth gwaith. Mae Cyngor Sir Penfro a sefydliadau partner wedi comisiynu Narrative Edge mewn perthynas â recriwtio gofalwyr maeth yn rhanbarthol.

Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2020-2021

Roedd ein rhaglen arolygu thematig a drefnwyd ar gyfer 2019-2020 yn canolbwyntio ar waith atal a hybu annibyniaeth i bobl hŷn. Ar gyfer yr arolygiad thematig presennol o wasanaethau plant, mae'r ffocws ar waith atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. O ganlyniad i'r argyfwng presennol sy'n gysylltiedig â COVID-19, rydym wedi gohirio cyhoeddi ein hadroddiad ar wasanaethau pobl hŷn ac wedi gohirio'r holl weithgarwch sy'n ymwneud â'r adolygiad o gymorth i blant anabl. Byddwn yn rhoi gwybod i chi maes o law pryd rydym yn rhagweld y byddwn yn ailgychwyn ein harolygiadau.

Rydym yn gobeithio cyhoeddi'r adroddiad cenedlaethol ar wasanaethau pobl hŷn maes o law, a hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am gyfraniad eich awdurdod lleol at hyn.

O ganlyniad i'r amgylchiadau hyn nad oedd modd eu rhagweld, rydym wrthi'n adolygu ac yn ystyried ein cynllun gwaith ar gyfer gweddill 2020-2021.

Cydweithiodd AGC ag Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Estyn i ddatblygu model ar gyfer arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant yng Nghymru. Cafodd y dull gweithredu hwn ei dreialu yn ystod hydref 2019. Roedd hyn yn enghraifft wych o ffyrdd newydd o weithio ledled Cymru, gan gynnig ymdrech wirioneddol i sicrhau cydweithio ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Sylwer bod copi o'r llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y

safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir,



Lou Bushell-Bauers
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

Cc.
Archwilio Cymru
AGIC
Estyn